



‘ysbrydoli newid i gefnogi dyfodol cynaliadwy’

Swydd Wag RHEOLWR SIOP, Siop Ail-Lenwi Gymunedol

Hyb Cymunedol Y Tŷ Gwyrdd yn Ninbych

Ydych chi'n angerddol am eich **cymuned leol**, cefnogi **busnesau lleol**, a buddsoddi yn yr **economi leol**? Ydych chi am ymuno â ni i gynnig cyfleoedd a rhannu syniadau sy'n helpu i **leihau ein heffaith ar yr amgylchedd** a chefnogi **dyfodol mwy cynaliadwy** i ni a chenedlaethau'r dyfodol?

Mae Y Tŷ Gwyrdd yn hyb cymunedol dwyieithog ar lawr gwlad wedi'i leoli yn Ninbych (Gogledd Cymru) gyda siop sy'n cynnig cynhyrchion lleol, moesegol, ecogyfeillgar, dim gwastraff, casgliad TerraCycle, a chornel llyfrau plant. Mae hwn yn ofod cymunedol cydweithredol a rennir â siop arddio ecogyfeillgar Tanyards, adnodd menter gymunedol leol CIC, ac artistiaid lleol Elysia's Textile Art a Storys Studio.

Rydym wrth ein bodd o allu cynnig y cyfle hwn ar gyfer swydd **Rheolwr Siop** yn ein siop gymunedol sy'n gwerthu nwyddau ail-lenwi a bwydydd lleol, eitemau cartref a chynhyrchion garddio. Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Gweithrediadau a'r Rheolwr Cyfathrebu, gyda chefnogaeth Bwrdd y Cyfarwyddwyr.

Mae'n rôl llawn amser (30 awr/wythnos), fodd bynnag bydd rhannu swydd / oriau rhan-amser yn cael eu hystyried.

Diwrnodau agor y siop: Dydd Llun – Dydd Sadwrn

Oriau: Bydd yr oriau gwaith yn cael eu trafod a'u cytuno yn y cyfweiliad (mae modd ar gyfer elfen o hyblygrwydd)

Cyfradd £15/awr.

Prif sgiliau a phrofiad gofynnol:

- Mae profiad manwerthu yn hanfodol, gyda phrofiad yn y diwydiant bwyd a diod yn ddymunol iawn.
- Profiad o reoli pobl yn effeithiol.
- Profiad mewn rôl gwasanaeth cwsmer.
- Siaradwr Cymraeg / sgiliau Cymraeg yn ddymunol, neu'n barod i ddysgu.

Rolau a Chyfrifoldebau'r Rheolwr Manwerthu:

- Rheoli gweithrediadau'r siop o ddydd i ddydd, gan gynnwys cynnig gwasanaeth yn y siop ac ar-lein.
- Rheoli pobl, gan gynnwys recriwtio a hyfforddi staff a gwirfoddolwyr y siop, a threfnu'r rota staff (gyda chefnogaeth y Rheolwyr Gweithrediadau a Chyfathrebu).
- Cymryd rhan mewn cynllunio strategol i wella gwasanaeth cwsmeriaid, gyrru gwerthiannau'r siop, cynyddu proffidioldeb, a chreu polisïau siop a rhaglenni marchnata a fydd yn cynyddu gwerthiant ac yn tyfu'r sylfaen gwsmeriaid bresennol.
- Bod yn gyfrifol am drin arian parod, a choladu ac adolygu adroddiadau rheoli siop.

- Sicrhau bod safonau ansawdd, gwasanaeth cwsmeriaid ac iechyd a diogelwch yn cael eu bodloni, gan gynnwys rheoli tasgau agor a chau'r siop bob dydd, a bod yn gyfrifol am brofi'r system ganfod tân yn wythnosol.
- Bod yn gyfrifol am gyflwyniad y siop a'i nwyddau i gynyddu gwerthiant a phroffidioldeb i'r eithaf, ailgyflenwi cynhyrchion ail-lenwi, a chadw tŷ, gan gynnwys glanhau ac arddangosfeydd.
- Rheoli stoc, gan gynnwys cadw cofnod o lefelau stoc a gwneud archebion.
- Magu a chynnal cysylltiadau cyfeillgar â chyflenwyr cyfanwerthol.
- Sicrhau bod anghenion cwsmeriaid yn cael eu diwallu, bod cwynion yn cael eu datrys, a bod y gwasanaeth yn gyfeillgar, yn gyflym ac yn effeithlon.
- Ymrwymo i fagu gwybodaeth am gynnyrch i gynghori cwsmeriaid yn hyderus ar yr ystod cynnyrch.
- Cefnogi diwylliant cynhwysol, gan gydnabod a gwerthfawrogi gwahanol safbwyntiau a chroesawu staff i gyfrannu syniadau ac awgrymiadau.
- Cynnal safonau storfa uchel a meithrin amgylchedd cadarnhaol i gwsmeriaid a staff.
- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol eraill yn ôl yr angen.

Bydd gan yr ymgeisydd delfrydol sgiliau trefnu, gwasanaeth cwsmeriaid a chyfathrebu cryf. Byddwch yn gallu rhoi sylw i fanylion a bydd gennych ffordd gwrtais, broffesiynol, atyniadol.

Rydyn ni am i'n staff ddefro a bod yn gyffrous am fynd i'r gwaith, i gael eu cymell a'u hysgogi, i garu'ch swydd!

Rydym yn ymrwymo i'ch helpu chi i ddatblygu eich datblygiad personol a gyrfaol, ac i ddarparu diwylliant gwaith gwerth chweil a chadarnhaol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y busnes trwy ymweld â www.ytygwyrdd.cymru

Os hoffech chi ddarganfod mwy, cysylltwch â ni trwy: helo@ytygwyrdd.cymru neu facebook @ytygwyrdd

I wneud cais, llenwch y Ffurflen Gais Rheolwr Siop a'i hanfon at helo@ytygwyrdd.cymru

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: **Dydd Llun 31ain Mai** (hanner nos)

Mae Y Tŷ Gwyrdd yn gyflogwr cyfle cyfartal ymroddedig. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bob aelod o'n cymuned.

Darperir rhybudd preifatrwydd ar gyfer pob cais yn unol â rheoliadau diogelu data.

Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi darparu cefnogaeth ariannol i greu'r swydd newydd hon trwy Gronfa Twf Busnes Cymdeithasol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

